

Castell Caerdydd

Gweithdy Catapyltiau a Chetilau

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy naill ai yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg neu pan fo'n bosibl, yn yr Is-grofft ganoloesol ac ar Diroedd y Castell (bydd angen dillad priodol).

Disgrifiad

Gweithdy am wyddoniaeth ymosod ar gastell a'i amddiffyn yn yr oesoedd canol, gan ganolbwyntio ar y defnydd o arfau gwarchae mawr yn ystod y cyfnod.

Yn ystod y sesiwn, trafodir amrywiaeth o gatapyltiau ac arfau eraill - yn enwedig y defnydd o fagnelau, gyda golwg fanwl ar fagnel y Castell ei hun, a'r cyfle i ddefnyddio model o fagnel fawr a gweld sut mae'n gweithredu.

Cynhelir eich gweithdy gan hwylusydd proffesiynol mewn dillad o'r oes sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

Taith Dywys o'r Castell

Bydd taith o'r Castell yn mynd â'r plant o amgylch rhai o'r ystafelloedd mwyaf trawiadol a lliwgar a ddyluniwyd gan y pensaer, William Burges. Mae ei gynlluniau yn dod o'r cyfnod Fictoraidd ond maent yn adlewyrchu gweledigaeth Burges o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

Hyd

Bydd y gweithdy yn para 75 munud. Bydd y daith dywys yn para tua 50 munud neu gellir mynd â phlant iau ar daith fyrrach os byddant yn cael trafferth dringo'r grisiau troellog. Neilltuir amser ar gyfer cinio ac i fanteisio ar yr agweddau eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr ymweliad (gweler isod)

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am y gwahanol fathau o gatapyltiau a ddefnyddiwyd yn y cyfnod canoloesol
- ◆ Dysgu am y grymoedd a arferir yn eu defnydd
- ◆ Dysgu sut y bydd grym amrywiol yn effeithio ar weithrediad y catapyltiau
- ◆ Gweithio fel tîm i weithredu model o fagnel
- ◆ Arbrofi gyda gwahanol bwysau a thaflegrau i benderfynu pa un sydd fwyaf effeithiol

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)
 - Grymoedd o wahanol fathau, e.e. disgyrchiant (Gwyddoniaeth)
 - Y ffyrdd y gall grymoedd effeithio ar symudiad (Gwyddoniaeth)
- ◆ Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)
 - Grymoedd – Cydnabod bod rhai mecanweithiau, gan gynnwys liferi, pwlliau a gerau, yn caniatáu i rym llai i gael mwy o effaith (Gwyddoniaeth – CA2 Uwch)
- ◆ Cyfnod Allweddol 3 (Cymru)
 - Grymoedd – Y grymoedd mewn dyfeisiau a'u perthynas â'r gwaith a wneir a grym (Gwyddoniaeth)
- ◆ Cyfnod Allweddol 3 (Lloegr)
 - Grymoedd – Grymoedd sydd eu hangen i wneud i wrthrychau stopio neu ddechrau symud, neu newid eu cyflymder neu gyfeiriad mudiant (Gwyddoniaeth)

- Grymoedd – Newid yn dibynnu ar gyfeiriad y grym a'i faint (Gwyddoniaeth)

- ◆ Cyfnod Allweddol 4 (Cymru)
 - Grymoedd – Pellter, Cyflymder a Chyflymiad (Gwyddoniaeth)
 - Grymoedd – Cyfreithiau Newton (Gwyddoniaeth)

- ◆ Cyfnod Allweddol 4 (Lloegr)
 - Grymoedd – Cyflymiad a achosir gan rymoedd (Gwyddoniaeth)
 - Grymoedd – Cyfreithiau Newton (Gwyddoniaeth)

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.